NHS choices

Cael gofal iechyd dramor

Beth bynnag yw eich rhesymau dros fynd dramor, gallech fod yn gymwys i gael gofal meddygol am bris gostyngol neu am ddim weithiau. Bydd eich hawliau yn dibynnu a ydych yn mynd i wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu rywle arall yn y byd.

NHS choices

Mynegai

Tudalen

Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC)

- Ynglŷn â'r EHIC 3
- Ymgeisio ac adnewyddu 4
- Defnyddio EHIC 6
- Beth sydd wedi'i ddiogelu? 7

Symud dramor

- Ynglŷn â symud dramor 8
- Byw dramor 9
- Gweithio dramor 12
- Astudio dramor 15

Mynd dramor am driniaeth a gynlluniwyd

- Ynglŷn â thriniaeth a gynlluniwyd 17
- Defnyddio E112 19
- Canllawiau Erthygl 49 21
- Cymharu dewisiadau 22
- Hawl 24
- Geni dramor 25

NHS choices

Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd

Mae'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn caniatáu i chi ddefnyddio gofal iechyd gwladol yn holl wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir am gost ostyngol neu am ddim weithiau.

Dylai pawb sy'n preswylio yn y DU gael un a mynd ag ef gyda nhw pan fyddant yn teithio dramor. Mae ymgeisio am y cerdyn yn rhad ac am ddim ac mae'n ddilys am hyd at bum mlynedd.

Trwy ddangos yr EHIC mae gennych hawl i gael triniaeth a all ddod yn angenrheidiol yn ystod eich taith, ond nid yw'n caniatáu i chi fynd dramor yn benodol ar gyfer derbyn gofal meddygol. Ond mae gofal mamolaeth, dialysis arennol a rheoli symptomau cyflyrau sy'n bodoli neu gronig sy'n digwydd tra byddwch dramor yn cael eu diogelu gan yr EHIC.

Bydd eich EHIC yn caniatáu i chi ddefnyddio'r un gofal iechyd gwladol â phreswylydd y wlad yr ydych yn ymweld â hi. Ond, mae llawer o wledydd yn disgwyl i'r claf dalu tuag at ei driniaeth, a hyd yn oed gyda EHIC, efallai y bydd disgwyl i chithau wneud yr un fath.

NID yw'r EHIC yn cymryd lle yswiriant teithio. Ni fydd yn eich diogelu ar gyfer unrhyw ofal iechyd meddygol preifat na chostau pethau fel achub ar y mynydd mewn canolfannau sgïo, dychwelyd i'r DU neu eiddo sy'n cael ei ddwyn neu'n mynd ar goll.

Am y rhesymau hyn ac eraill, mae'n bwysig cael EHIC a pholisi yswiriant teithio preifat dilys. Mae rhai yswirwyr yn awr yn mynnu bod gennych EHIC a bydd llawer yn hepgor y taliad 'gordaliad' os bydd gennych un.

Mae ymgeisio am EHIC yn hawdd. Hyd yn oed os nad oes gennych gynlluniau i deithio yn y dyfodol agos, mae'n syniad da cael un bob amser.

NHS choices

Ymgeisio am EHIC

Mae nifer o ffyrdd o ymgeisio am EHIC ond y ffordd gyflymaf yw ar-lein. Fel arfer bydd eich cerdyn yn cyrraedd cyn pen saith niwrnod. Gallwch hefyd ymgeisio dros y ffôn ar 0845 606 2030 neu trwy'r post trwy ddefnyddio ffurflen gais gan eich swyddfa bost leol.

Gall eich cais fod ar eich cyfer chi yn unig, ond gallwch hefyd ymgeisio ar ran eich partner ac unrhyw blant mewn addysg amser llawn dan 18 oed. Os ydych chi dan 16, bydd raid i'ch rhiant neu warcheidwad ymgeisio ar eich rhan. Gall staff dysgu mewn ysgol breswyl hefyd ymgeisio ar ran unrhyw blant dan eu gofal.

Bydd raid i bob unigolyn yr ydych yn ymgeisio ar ei ran roi manylion ei enw llawn, dyddiad geni a rhif Yswiriant Cenedlaethol neu GIG (CHI yn yr Alban neu Rif Iechyd a Gofal yng Ngogledd Iwerddon).

Gall y rhan fwyaf o bobl ymgeisio ar-lein neu dros y ffôn ond bydd raid i chi wneud cais trwy'r post yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os nad ydych yn wladolyn y DU, AEE neu'r Swistir.
- Os ydych yn astudio dramor.
- Os ydych eisoes yn gweithio dramor ond yn parhau yn gyflogedig yn y DU neu'n hunangyflogedig.
- Os bydd arnoch angen diweddaru eich manylion personol neu ychwanegu rhywun dibynnol, siaradwch â thîm ymholiadau EHIC ar 0845 605 0707.

Adnewyddu EHIC

Mae EHIC yn ddilys am 3 i 5 mlynedd yn dibynnu ar pryd y cafodd ei roi. Bydd raid i chi ymgeisio am un newydd cyn y dyddiad y daw i ben. Gallwch ymgeisio hyd at 6 mis cyn y dyddiad y daw i ben.

Y ffordd hawsaf i ymgeisio yw ar-lein. Neu ffoniwch 0845 606 2030.
Gallwch ymgeisio trwy'r post hefyd mae pecyn ymgeisio ar gael o bob Swyddfa Bost. Ond bydd ceisiadau trwy'r post yn cymryd mwy o amser.
Cofiwch wirio'r dyddiad y daw'r EHIC i ben cyn mynd i deithio.

Cael EHIC yn lle'r un presennol

Os bydd arnoch angen cael EHIC yn lle un sydd ar goll, ffoniwch 0845 606 2030.

Os bydd eich EHIC yn cael ei golli neu ei ddwyn tra byddwch dramor, dylech chi (neu rywun ar eich rhan) ymgeisio am Dystysgrif Cerdyn Dros Dro (PRC), a fydd yn rhoi'r un diogeliad i chi â'r EHIC nes byddwch yn dychwelyd adref. I wneud hynny, ffoniwch 0044 (0)191 218 1999. Mae'n syniad da cadw'r rhif ar eich ffôn. (Llun-Gwen, 8am - 5pm)

Er mwyn cael PRC bydd raid i chi roi eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a Rhif Yswiriant Cenedlaethol/GIG (CHI yn yr Alban neu Rif Iechyd a Gofal yng Ngogledd Iwerddon).

Defnyddio EHIC

Mae system gofal iechyd pob gwlad ychydig yn wahanol, felly efallai na fydd eich EHIC yn cynnwys popeth a fyddai am ddim ar y GIG.

Er enghraifft, mae gan rai ysbytai gwladol yn Ewrop wasanaethau ambiwlans sy'n cael eu gweithredu'n breifat, sy'n golygu y byddai'n rhaid i chi dalu am eich taith mewn ambiwlans. Yn aml byddwch yn cael cynnig dewis rhwng gofal preifat ac un gwladol.

Er mwyn osgoi biliau meddygol preifat diangen, chwiliwch am ofal meddygol gwladol bob amser, a phryd bynnag y bydd hynny'n bosibl cyflwynwch eich EHIC cyn eich triniaeth. Bydd raid i chi fod yn ofalus os bydd y trefniadau wedi cael eu gwneud gan westy neu gynrychiolydd cwmni teithio gan y byddant weithiau yn argymell darparwr gofal iechyd preifat. Dylech bob amser gludo manylion eich polisi yswiriant teithio gyda chi.

Mae rhai systemau iechyd Ewropeaidd yn disgwyl i chi dalu eich bil ymlaen llaw ac yna hawlio ad-daliad gan ddefnyddio eich EHIC. Dylech geisio ymgeisio am eich ad-daliad cyn dychwelyd adref bob amser. Gweler y wybodaeth am y wlad yr ydych yn ymweld â hi am fanylion sut i wneud hyn. Petai arnoch angen gwneud cais wedi dychwelyd i'r DU ffoniwch 0191 218 1999 (Llun-Gwen, 8am-5pm)

Yn olaf, cofiwch gadw pob derbynneb ac unrhyw waith papur (gwnewch gopïau os bydd angen hynny) gan y gall fod arnoch chi neu eich cwmni yswiriant eu hangen i ymgeisio am ad-daliad.

NHS choices

Beth mae'r EHIC yn ei ddiogelu?

- Fe wnaiff ddiogelu unrhyw driniaeth feddygol sy'n dod yn angenrheidiol yn ystod eich arhosiad oherwydd salwch neu ddamwain.
- Mae'r cerdyn yn caniatáu i chi gael triniaeth feddygol am gost ostyngol neu am ddim gan ddarparwyr gofal iechyd gwladol.
- Mae'n caniatáu i chi gael eich trin ar yr un sail â phreswyliwr y wlad yr ydych yn ymweld â hi.
- Mae'n cynnwys triniaeth ar gyfer cyflwr meddygol cronig neu oedd yn bodoli ddaeth yn angenrheidiol yn ystod eich ymweliad.
- Mae'n cynnwys gofal mamolaeth arferol, (ar yr amod na wnaethoch ymweld yn benodol i roi genedigaeth).
- Mae'n cynnwys darparu ocsigen, dialysis a gofal meddygol arferol.

Beth sydd ddim yn cael ei ddiogelu gan yr EHIC?

- Nid yw'r EHIC yn cymryd lle yswiriant teithio preifat. Dylech bob amser gymryd polisi addas yn ychwanegol at eich EHIC.
- Ni fydd yn diogelu costau gofal iechyd preifat na gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r system gofal iechyd gwladol.
- Ni wnaiff ddiogelu costau cael eich cludo yn ôl i'r DU.
- Ni fydd yn caniatáu i chi fynd dramor yn benodol i dderbyn triniaeth (gan gynnwys mynd dramor i roi genedigaeth).
- Ni ellir defnyddio'r cerdyn mewn rhai rhanbarthau, gan nad oes gofal iechyd gwladol ar gael.

Symud dramor

Gall symud i wlad arall fod yn brofiad ysgytwol. Mae trefniadau teithio, llety a fisa neu hawl i weithio yn bethau amlwg i'w hystyried wrth baratoi at symud, ond beth am gynllunio eich gofal iechyd?

Os ydych yn symud i wlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir yn barhaol, ni fydd gennych hawl i driniaeth feddygol dan reolau arferol y GIG.

Cyn gadael am eich cartref newydd, mae'n bwysig i chi wirio pa wasanaethau iechyd sydd ar gael i chi yn y wlad honno. Mae systemau gofal iechyd yn amrywio o wlad i wlad ac efallai na fyddant yn cynnwys gwasanaethau y byddech yn disgwyl eu cael am ddim dan y GIG. Dylech neilltuo arian ar gyfer unrhyw gostau gofal iechyd ychwanegol y gallwch eu hwynebu, gan gynnwys yswiriant iechyd.

Ond, efallai y bydd gennych hawl i ofal iechyd a dalwyd gan y DU. Mae hyn yn dibynnu a ydych am fyw dramor yn barhaol, neu weithio tu allan i'r DU am gyfnod penodol. Gall y cymorth sydd ar gael hefyd ddibynnu a ydych yn derbyn pensiwn gwladol yn y DU neu fudd-daliadau eraill yn y DU.

Byw dramor

Symud i wlad yn yr AEE

System gofal iechyd yn seiliedig ar breswylio yw'r GIG. Felly, wedi i chi symud yn barhaol o'r DU nid oes gennych hawl i driniaeth feddygol dan reolau arferol y GIG. Rhaid i chi hysbysu eich meddyg teulu blaenorol pryd y byddwch yn symud fel eich bod chi a'ch teulu yn cael eich tynnu oddi ar gofrestr y GIG. Ni fyddwch chwaith yn cael defnyddio eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) a roddwyd yn y DU i gael gofal iechyd dramor.

Derbyn pensiwn gwladol y DU neu fudd-dal analluogrwydd tymor hir

Os ydych yn derbyn pensiwn gwladol y DU, neu yn derbyn budd-dal analluogrwydd tymor hir, efallai eich bod yn gymwys i gael gofal iechyd gwladol wedi ei dalu gan y DU. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu ar yr un sail â rhywun sydd wedi ei 'yswirio' yn y wlad yr ydych yn symud iddi.

Cyn symud, dylech wirio beth sy'n cael ei ddiogelu yn y wlad yr ydych yn mynd iddi. Darganfyddwch a oes raid i chi wneud unrhyw drefniadau cyn gadael y DU. Defnyddiwch y 'canllaw fesul gwlad' a dewis y wlad o'r rhestr am wybodaeth fanwl.

Bydd arnoch angen ffurflen E121 ar gyfer eich gofal iechyd yn y wlad yr ydych yn symud iddi. Gallwch gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am wybodaeth fanwl.

Department for Work and Pensions (DWP)
The Pensions Service
Tyneview Park
Whitley Road
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA
Ffôn: 0191 218 7777

Os bydd arnoch, ar unrhyw adeg yn y dyfodol, eisiau dod yn ôl i'r DU am driniaeth a gynlluniwyd, rhaid i chi gysylltu â'r awdurdodau yn y wlad yr ydych yn byw ynddi i gael gwybod beth yw'r dewisiadau sydd ar gael i chi. Byddwch yn gorfod talu yn y DU, oni bai eich bod yn medru dangos E112 (a roddwyd gan yr awdurdodau yn y wlad yr ydych yn byw ynddi) wrth gael eich derbyn i'r ysbyty. Pan fyddwch yn ymweld â'r DU ar wyliau dylech gael EHIC gan y wlad yr ydych yn byw ynddi yn awr.

Yn derbyn budd-daliadau eraill o'r DU

Os ydych ch'n cael budd-dal o'r DU, fel budd-dal analluogrwydd tymor byr neu lwfans mamolaeth, mae eich diogeliad gofal iechyd yn ddarostyngedig i reolau gwahanol; gall cyfnod eich diogeliad a'ch meini prawf ymgeisio fod yn wahanol gan ddibynnu ar eich amgylchiadau penodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Bensiwn Ryngwladol (IPC) neu'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Gofal iechyd a ddarperir dan yr E106

Ond, os byddwch yn symud i wlad arall yn yr AEE i fyw ond nid i weithio ac nad ydych yn derbyn budd-dal yn y DU, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn gwarchodaeth gofal iechyd gwladol am ddwy flynedd a hanner, y telir amdani gan y DU.

Bydd raid i chi ymgeisio am ffurflen E106 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a phrofi eich bod wedi gweithio yn y DU a thalu cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol am hyd at dair blynedd cyn i chi adael.

Department for Work and Pensions (DWP)
The Pensions Service
Tyneview Park
Whitley Road
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA

NHS choices

Ffôn: 0191 218 7777

Bydd yr E106 yn rhoi hawl i chi gael triniaeth yr un fath ag un o breswylwyr y wlad yr ydych yn byw ynddi. Mae system iechyd pob gwlad yn wahanol ac efallai na fydd yn cynnwys popeth y byddech yn disgwyl ei gael am ddim dan y GIG. Gall hyn olygu y bydd raid i chi wneud cyfraniad claf at gostau eich gofal.

Pan ddaw cyfnod y diogeliad ar ffurflen E106 i ben, ni fedrwch gael unrhyw ddiogeliad meddygol arall o'r DU nes eich bod yn derbyn pensiwn gwladol y DU. Bydd raid i chi ofyn i'r awdurdodau yn y wlad lle'r ydych yn mynd i fyw a fyddech yn gymwys i ymuno â'u cynllun gofal iechyd wedi i'r E106 ddod i ben.

Mae'r hawl i ofal iechyd ym mhob gwlad yn wahanol, ac mewn sawl gwlad ni fyddech yn cael eich diogelu gan eu system gofal iechyd.

Tra bydd gennych E106 dilys, gallwch ddod yn ôl i'r DU i gael triniaeth a gynlluniwyd. Bydd gennych hawl hefyd i ddefnyddio EHIC o'r DU wrth ymweld â gwlad arall yn yr AEE.

Wedi i'ch E106 ddod i ben, nid oes gennych bellach hawl i gael triniaeth, naill ai yn y DU na thramor, oni bai eich bod yn derbyn pensiwn gwladol neu fudd-dal analluogrwydd tymor hir, a bod gennych hawl i ffurflen E121.

Symud y tu allan i'r AEE

Ni fyddwch wedi eich diogelu am ofal iechyd y talwyd amdano gan y DU os byddwch yn symud i fyw'n barhaol y tu allan i'r DU.

Gweithio dramor

Gweithio i gyflogwr o'r DU neu'n hunangyflogedig

Os ydych chi'n mynd i weithio mewn gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, ac yn parhau i dalu cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol gorfodol y DU, efallai y bydd gennych hawl i ddiogeliad gofal iechyd y telir amdano gan y DU. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un dibynnol sy'n symud gyda chi.
Byddwch yn derbyn triniaeth feddygol ar yr un sail â rhywun sy'n byw yn y wlad yr ydych yn symud i weithio ynddi.

Gweithio dramor am flwyddyn neu lai

Os byddwch yn gweithio dramor am flwyddyn neu lai ond yn parhau i dalu Yswiriant Gwladol gorfodol a threth yn y DU, bydd raid i chi gael ffurflen E101 i ddangos eich bod yn parhau i dalu treth ac yswiriant gwladol gorfodol yn y DU. Er mwyn gwneud cais am E101 i'ch cyflogwyr neu i chi fel person hunangyflogedig dylech gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

HMRC
Charity, Assets and Residence
Room BP1301
Benton Park View
Newcastle upon Tyne
NE98 1ZZ

Dylech hefyd wneud cais am Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC), sy'n eich galluogi i gael gofal iechyd wrth weithio dramor.

Os bydd eich arhosiad yn annisgwyl yn parhau mwy na blwyddyn, gellir gwneud cais am ail gyfnod o hyd at 12 mis. Os bydd eich cais yn llwyddiannus bydd E102 yn cael ei roi. Bydd arnoch angen EHIC eto i'ch diogelu am ofal iechyd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Gweithio dramor am dros ddwy flynedd

Os byddwch yn gweithio dramor am ddwy flynedd neu fwy (hyd at uchafswm o bum mlynedd), dylai eich cyflogwr - neu chi os ydych yn hunangyflogedig - gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) am y ffurflenni canlynol:

- E101: bydd hon yn dangos bod treth a chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yn cael eu talu yn y DU.
- E106: bydd hon yn eich diogelu chi a'ch teulu ar yr un sail â rhywun yn y wlad yr ydych yn byw ynddi.

Dylech wirio gwybodaeth benodol am y wlad honno i weld beth sy'n cael ei gynnwys yn y wlad yr ydych yn gweithio ynddi. Bydd hyn hefyd yn esbonio sut i gofrestru eich ffurflen iechyd.

HMRC
Charity, Assets and Residence
Room BP1301
Benton Park View
Newcastle upon Tyne
NE98 1ZZ

Gweithio fel au pair neu nani

Os byddwch yn gweithio fel au pair neu nani mewn gwlad AEE, mae gennych hawl i EHIC am gyfnod o hyd at 12 mis. Ar ôl y 12 mis, rhaid i chi gael diogeliad gofal iechyd yn y wlad yr ydych yn gweithio ynddi.

Lluoedd Arfog Prydain

Os byddwch ar leoliad mewn gwlad arall yn yr AEE neu'r Swistir, mae gennych chi a phawb sy'n ddibynnol arnoch hawl i EHIC o'r DU i'w ddefnyddio wrth ymweld â gwlad arall heblaw'r un lle'r ydych ar leoliad. Bydd raid i chi wneud cais am EHIC.

NHS choices

Astudio dramor

Astudio dramor fel rhan o gwrs sy'n cael ei gydnabod yn y DU

Os ydych yn mynd i wlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i astudio fel rhan o gwrs sy'n cael ei gydnabod yn y DU, bydd arnoch angen Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Bydd arnoch hefyd angen un ar gyfer unrhyw un sy'n ddibynnol arnoch. Bydd y warchodaeth yn parhau ar hyd y cwrs.

Bydd raid i'ch cais am EHIC gynnwys:

- Enw a chyfeiriad sefydliad addysg yn y DU.
- Cyfeiriad y lle'r ydych yn astudio dramor.
- Cyfnod yr astudiaeth.
- Manylion y cymhwyster yr ydych yn astudio amdano

Nid yw'r cwrs yn rhan o gwrs sy'n cael ei gydnabod yn y DU

Os byddwch yn mynd i aelod wladwriaeth arall i astudio cwrs nad yw'n cael ei gydnabod yn y DU, mae gennych hawl i gael Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) am y 12 mis cyntaf yn unig. Wedi hynny bydd raid i chi gofrestru am ofal iechyd gwladol yn y wlad yr ydych yn astudio ynddi neu gael yswiriant preifat.

Bydd raid i'ch cais EHIC gynnwys:

- Cyfeiriad y man y byddwch yn astudio dramor.
- Cyfnod yr astudiaeth.
- Manylion y cymhwyster y byddwch yn astudio amdano.

Astudio mewn gwlad y tu allan i'r AEE

Os ydych yn mynd i astudio mewn gwlad y tu allan i'r AEE, ni fydd gennych hawl i gael gofal iechyd a delir gan y DU tra byddwch yn astudio. Ond, mae unrhyw un sy'n astudio'r tu allan i'r AEE am lai na chwe mis yn un o'r gwledydd canlynol yn cael gofal argyfwng neu driniaeth angenrheidiol ar unwaith sy'n codi yn ystod cyfnod eu hastudiaeth dramor:

Anguilla
Awstralia
Barbados
Bosnia Herzegovina
Bwlgaria
Croatia
Gibraltar
Macedonia
Montserrat
Rwmania
Rwsia
Sant Helena
Seland Newydd
Serbia a Montenegro
Ynys Manaw
Ynysoedd Falkland
Ynysoedd Prydeinig y Wyryf
Ynysoedd Turks a Caicos
Ynysoedd y Sianel
Yr hen Undeb Sofietaidd

Am ragor o wybodaeth, gweler canllaw fesul gwlad yr Adran Iechyd i hawliau y tu allan i'r AEE.

Mynd dramor am driniaeth a gynlluniwyd

Os byddwch yn ystyried mynd i wlad arall yn benodol i gael triniaeth feddygol, mae rheolau gwahanol yn berthnasol i'r rhai ar gyfer cael gofal angenrheidiol tra byddwch dramor ar daith. Mae'n bwysig nodi nad yw eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn rhoi gwarchodaeth ar gyfer mynd dramor am driniaeth a gynlluniwyd.

Yn gyntaf, dylech drafod eich cynlluniau â'ch meddyg cyn gwneud unrhyw drefniadau teithio neu feddygol. Bydd yn eich cyfeirio at eich comisiynydd iechyd lleol a fydd yn trafod y dewisiadau sydd ar gael i chi ac yn cadarnhau'r canlynol:

Pa driniaethau y maent yn barod i'w hariannu, a pha lefel o ariannu fyddai ar gael.
Yn union faint fydd yn cael ei ad-dalu.
Eich bod yn deall yn llawn ar ba amodau y byddwch yn cael eich trin dramor.
Unrhyw raglen o ofal dilynol neu driniaeth ddilynol y gall fod arnoch eu hangen wedi dychwelyd i'r DU.
Os byddwch yn mynd i wlad AEE am driniaeth, mae dau lwybr ar gyfer cael arian y GIG. Gallwch ymgeisio trwy ddefnyddio'r ffurflen E112 neu, fel arall, dan Erthygl 49 o gytundeb y CE. Gall eich comisiynydd lleol eich hysbysu pa ddewis sydd orau ar gyfer y math o driniaeth sydd arnoch ei hangen. Mae pob dewis yn gweithio mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Beth yw comisiynydd iechyd lleol?

Yn Lloegr: Ymddiriedolaethau gofal cychwynnol, comisiynwyr mewn practis a Meddygon Teulu
Yng Nghymru: byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru
Yn yr Alban: bwrdd y GIG ar gyfer preswylfa'r claf
Yng Ngogledd Iwerddon: gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

Mynd y tu allan i'r AEE

'Nid oes trefniadau ffurfiol os byddwch am fynd i gael triniaeth mewn gwlad nad yw yn yr AEE.
Dylech siarad â'ch comisiynydd iechyd lleol i weld a fyddai'n barod i ariannu eich triniaeth neu a oes ganddo drefniadau penodol'.

NHS choices

Yr E112

Mae'r ffurflen E112 yn rhoi hawl i chi gael triniaeth yn y sector a ariennir gan y wladwriaeth mewn gwlad arall yn yr AEE a'r Swistir. Bydd triniaeth yn cael ei darparu dan yr un amodau gofal a thaliadau ag ar gyfer preswylwyr y wlad honno. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi dalu canran o'r costau ymlaen llaw.
Er enghraifft, mewn rhai gwledydd, mae cleifion yn talu 25% o gostau eu triniaeth gan y wladwriaeth, a elwir yn 'gyd-daliad'. Byddai'r wladwriaeth yn talu'r 75% arall. Petaech yn derbyn triniaeth dan y system gofal iechyd honno, byddai disgwyl i chi dalu'r un cyd-daliad ag y byddai claf o'r wlad honno.

Yn yr un modd, mewn rhai gwledydd mae'r gofal yn gyfan gwbl rhad ac am ddim lle mae'n cael ei ddarparu, fel yn y DU. Mae hyn yn golygu y bydd yr E112 yn diogelu 100% o gostau eich gofal, ac ni fyddai'n rhaid i chi dalu unrhyw daliadau triniaeth ymlaen llaw.

Mae'r system yn gweithio gyda'r GIG yn talu cyfraniad y wlad sy'n trin. Os bydd y swm a delir gan y GIG i'r sefydliad sy'n trin ar eich rhan yn llai nag y byddai'r driniaeth wedi ei chostio yn y DU, a'ch bod wedi gorfod talu cyd-daliad, gallwch hawlio ad-daliad o'r taliadau hyn hyd at gost darparu'r gofal yn lleol gan y GIG.
Er enghraifft, os byddwch yn mynd dramor am lawdriniaeth sy'n costio £8,000, a bod disgwyl i chi dalu cyd-daliad safonol claf o 25%, byddwch yn talu £2,000. Bydd y GIG yn talu'r £6,000 sy'n weddill i'r sefydliad sy'n rhoi'r driniaeth.

Petai'r gost o roi triniaeth i chi gartref yn £7,500 fe allech wedyn hawlio'r £1,500 ychwanegol a neilltuwyd gan y GIG yn ôl i helpu i dalu'r cyd-daliad yr ydych wedi ei dalu.
Gan fod y driniaeth £500 yn ddrutach nag ar y GIG, byddai'n rhaid i chi dalu'r gyfran hon eich hun, ac ni fyddech yn cael eich ad-dalu amdano.

Sut i ymgeisio am E112

Bydd raid i chi wneud cais i'ch comisiynydd iechyd lleol am ffurflen E112. Cychwynnwch trwy siarad â'ch meddyg teulu am fanylion cyswllt neu ragor o wybodaeth.

Wrth benderfynu a ellir rhoi E112, bydd raid i'ch comisiynydd lleol fod yn fodlon:

- Bod ymgynghorydd GIG yn y DU wedi argymell y dylech gael eich triniaeth mewn gwlad arall yn yr UE, a bod asesiad clinigol llawn wedi cael ei gynnal i ddangos y bydd y driniaeth yn bodloni eich anghenion penodol.
- Bod costau eich anfon dramor i gael eich trin wedi eu cyfiawnhau o ran cyfrifoldebau'r comisiynydd iechyd am wario arian yn effeithlon a theg, er budd yr holl gleifion y mae'n gofalu amdanynt .
- Bod y driniaeth ar gael dan gynllun iechyd gwladol y wlad arall.
- Bod gennych hawl i driniaeth dan y GIG.

Canllawiau Erthygl 49

Gall Erthygl 49, a enwir ar ôl yr adran berthnasol o gytundeb y Gymuned Ewropeaidd (CE), ganiatáu i chi gael ad-daliad o gostau triniaeth feddygol a gynlluniwyd y byddwch yn ei derbyn mewn gwlad arall yn yr AEE. Rhaid i'ch triniaeth fod yn un sydd ar gael trwy'r GIG. Ond nid oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn cael eich ariannu.

Dim ond ad-daliad hyd at gost cael eich trin yn lleol dan y GIG y gall y comisiynydd GIG lleol ei dalu. Yn wahanol i ddefnyddio'r ffurflen E112, gallwch dderbyn y cyfraniad ariannol hwn tuag at driniath breifat neu wladol.

Byddwch yn ymwybodol y bydd raid i chi dalu cost y driniaeth ymlaen llaw, a dim ond wedi i'r driniaeth ddod i ben a'ch bod wedi talu amdani fel arfer y gallwch wneud cais am ad-daliad. Hyd yn oed os bydd eich triniaeth dramor yn rhatach nag y byddai dan y GIG, ni allwch gael eich ad-dalu am fwy nag y byddwch wedi talu am eich triniaeth feddygol.

Os dymunwch wneud cais dan Erthygl 49, dylech ymgynghori â'ch comisiynydd iechyd lleol. Gall ef benderfynu beth fyddai cost triniaeth leol dan y GIG, ac felly'r uchafswm y gallwch ei hawlio fel ad-daliad.

NHS choices

Cymharu'r E112 ac Erthygl 49

Mae rhai gwahaniaethau mawr rhwng y ddau lwybr ymgeisio. Ar y cyd â'ch comisiynydd iechyd lleol, dylech benderfynu pa lwybr sydd fwyaf addas:

Amodau talu
E112: cael eich trin fel aelod o system iechyd y wlad sy'n trin, e.e. gall y claf orfod talu cyfraniad tuag at gostau gofal. Bydd y GIG yn talu eu cyfraniad yn ôl i'r wlad sy'n trin.

Erthygl 49: eich trin fel petaech yn aelod o'ch aelod wladwriaeth gartref, felly bydd raid i chi dalu costau triniaeth ymlaen llaw a gofyn am ad-daliad gan eich comisiynydd iechyd GIG lleol.

Sector trin
E112: gan ei bod yn seiliedig ar gytundebau rhwng llywodraethau, dim ond ar gyfer triniaeth gan y sector gwladol y mae'n ddilys.

Erthygl 49: gall fod yn driniaeth gan y sector gwladol neu breifat, gan y bydd y GIG yn eich ad-dalu chi yn uniongyrchol am y ffioedd yr ydych wedi eu talu.

Cyfyngiad ar y swm fydd yn cael ei dalu
E112: dim cyfyngiad o ran faint fydd yn cael ei dalu i'r sefydliad sy'n trin, hyd yn oed os bydd y gost yn fwy na fyddai'r driniaeth wedi ei chostio gartref. Bydd y swm a delir yn cyfateb i gyfraniad y wlad sy'n trin, a gall ymestyn at ad-dalu cyfran o'ch cyfraniad chi.

Erthygl 49: y swm a ad-delir i gleifion yn cael ei gyfyngu i'r hyn y byddai wedi ei gostio i'w trin dan eu system gofal iechyd yn lleol.

Ad-daliadau
E112: y claf yn talu unrhyw gyd-daliadau yn unig (hynny yw, pan fydd y claf mewn rhai gwledydd yn gorfod talu canran benodol am y driniaeth wladol). Gall hawlio ad-daliad hyd at yr hyn y byddai'r gofal wedi ei gostio gartref, wedi tynnu'r swm a dalwyd i'r sefydliad sy'n trin.

Erthygl 49: y claf yn talu'r costau llawn ymlaen llaw ac yn cael ei ad-dalu hyd at yr hyn fyddai'r driniaeth wedi ei chostio gartref. Os bydd cost triniaeth dramor yn llai na'r hyn fyddai'r driniaeth wedi ei chostio dan y GIG ni fydd y claf yn cael y gor-daliad hwn.

Hawl

Dan y rheolau perthnasol a dyfarniadau'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd mae gennych hawl i fynd dramor i gael triniaeth naill ai dan lwybr E112 neu Erthygl 49 os:

- Yw'r driniaeth yn un a ddarperir gan eich comisiynydd GIG lleol; ac
- Eich bod yn wynebu 'oedi gormodol' cyn derbyn y gofal sydd arnoch ei angen yn y DU. Rhaid i'r penderfyniad ar oedi gormodol fod yn un meddygol gan glinigwr GIG o ystyried amgylchiadau'r unigolyn.

Ym mhob sefyllfa arall, mae'r penderfyniad i ariannu eich gofal dramor neu beidio yn un y bydd raid i'ch comisiynydd iechyd GIG lleol ei wneud, gan ystyried a yw'r driniaeth yn un y byddent yn barod i'w hariannu i chi ar yr adeg y byddech am ei chael.

Os byddwch yn anfodlon ar benderfyniad neu argymhelliad (yn achos E112) eich comisiynydd iechyd lleol, bydd gweithdrefn apelio leol. Yr apêl eithaf yn dilyn hyn fyddai adolygiad barnwrol.

Os byddwch yn dewis mynd dramor am ofal iechyd, fe'ch cynghorir yn gryf i gymryd yswiriant cyn derbyn triniaeth o'r fath i sicrhau bod unrhyw argyfwng na ellid ei ragweld wedi ei ddiogelu.

Dim ond os bydd y costau yn debyg i'r triniaethau a ddarperir yn y DU y bydd gennych hawl i dderbyn taliad tuag at eich costau teithio a chynhaliaeth. Ni chaiff y taliadau hyn fod yn fwy na chost cefnogaeth petaech wedi'ch trin gan y GIG.

Dylech hefyd gludo eich Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) pryd bynnag y byddwch yn mynd dramor, rhag ofn y bydd arnoch angen triniaeth y tu allan i'r DU.

Geni y tu allan i'r DU

Os byddwch yn mynd i wlad arall yn yr AEE (neu'r Swistir) yn benodol i eni, bydd arnoch angen Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) ar gyfer y gofal meddygol arferol a ffurflen E112 ar gyfer y geni ei hun.
Yn ogystal â chael EHIC, mae'n cael ei argymell y dylech gael yswiriant teithio gan na fydd yr EHIC yn eich diogelu rhag pob sefyllfa.

Er mwyn cael E112 bydd raid i chi ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon, yn esbonio pam mae arnoch eisiau gofal y tu allan i'r DU ac yn amgáu'r wybodaeth ganlynol:

- Tystysgrif MATB1 neu lythyr gan eich meddyg teulu neu fydwraig yn y DU, yn dangos eich dyddiad esgor tebygol (EDD)
- Eich rhif GIG neu rif Yswiriant Gwladol ac
- Eich dyddiad geni, eich cyfeiriad llawn yn y DU a dyddiadau teithio
- Nodwch a fyddwch yn dychwelyd i'r DU yn ogystal â gadael i ni wybod os ydych eisoes wedi gadael y DU i wlad arall yn yr AEE.

Ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, bydd raid i chi anfon eich cais at:

Medical Benefits (E-Forms Team)
DWP International Pension Centre
Room TC001
Tyneview Park
Whitley Road

Newcastle upon Tyne, NE98 1BA

Ffôn: 0191 218 1999 (Llun i Wener 8am-5pm)
(Sylwer: Mae Budd-daliadau Meddygol yn gweinyddu'r system E112 ar ran yr Adran Iechyd)

Ymgeiswyr sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd raid i chi anfon eich cais at:

Department of Health, Social Services and Public Safety
General Medical Services Branch Room D3
Castle Buildings
Stormont
Upper Newtownards Road
Belfast BT4 3SQ

Ffôn: 028 9052 2890